

Cyngor Sir Caerfyrddin

Y Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Perthnasol i Flwyddyn Academaidd
2027/28



Mae'r polisi hwn wedi'i adolygu ac mae'n ddilys o 1 Hydref 2026
ymlaen.

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

CYFLWYNIAD

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol ddynodedig eu dalgylch ac sy'n byw y tu hwnt i'r pellter cerdded statudol, yn unol â **Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008**¹.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r cyfrifoldebau statudol sydd ar yr Awdurdod Lleol o ran darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol a'r coleg i ddysgwyr sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin. O ran cyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i'r Cyngor:

- Hyrwyddo a threfnu mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a rhwymedigaethau'r iaith Gymraeg.
- Hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy, gan gefnogi'r hierarchaeth trafndiaeth genedlaethol, sy'n blaenoriaethu teithio llesol, trafndiaeth gyhoeddus, trafndiaeth a rennir, a dulliau allyriadau isel lle bo'n bosibl.
- Sicrhau bod y trefniadau teithio gan ddysgwyr yn ddiogel, yn effeithlon ac yn amgylcheddol gyfrifol, gan adlewyrchu ymrwymadau ehangach y Cyngor i gynaliadwyedd ac annog newid tuag at deithio mwy gwyrdd.

Mae'r polisi hwn yn gywir ar **1 Hydref 2026** ac mae'n berthnasol i **flwyddyn academiaidd 2027/28**. Mae'r polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol yn unol ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol perthnasol.

Dim ond pan fo dysgwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a amlinellir yn y ddogfen hon y darperir cludiant am ddim. Dylai rhieni a gwarcheidwaid ddarllen y canllawiau hyn yn ofalus cyn cyflwyno cais. **Peidiwch â chyflwyno cais arall** os gwrthodwyd cais blaenorol oni bai bod eich amgylchiadau wedi newid (e.e., newid cyfeiriad neu newid ysgol).

Parents and guardians considering an application for school transport are strongly encouraged to read the Schools Admission information on Carmarthenshire County Council's website at [Education & Schools - Carmarthenshire County Council](#) and to contact the Learner Travel Team if they are unsure about eligibility for free transport, including when

¹ [Mesur Teithio gan Ddysgwyr \(Cymru\) 2008](#)

planning a change of address or a change of school, or when transitioning from primary to secondary education.

1. CLUDIANT AM DDIM I DDYSGWYR O OEDRAN YSGOL GORFODOL

Bydd dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r ysgol os ydynt yn bodloni'r **HOLL** feini prawf canlynol:

- 1.1 **Yn breswylwyr yn Sir Gaerfyrddin** (h.y. caiff y Dreth Gyngor ar gyfer y cyfeiriad cartref ei thalu i Sir Gaerfyrddin). Mae'r "cyfeiriad cartref" fel y'i diffinnir yn y llyfryn "Derbyn i Ysgolion - Gwybodaeth i Rieni" a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Lleol, Addysg ac Ysgolion - Cyngor Sir Gaerfyrddin, ac mae "rhiant" fel y'i diffinnir yn Adran 576 o Ddeddf Addysg 1996. ²Sylwer bod y cyfeiriad cartref cofrestredig a chyfrifoldeb rhiant yn cael eu gwirio yn ystod y cam ymgeisio yn ôl y cofnodion a gedwir gan yr ysgol a'r Awdurdod Addysg.
- 1.2 **O oedran ysgol gorfodol.** Yn unol â'r gyfraith mae'n rhaid i rieni a gwarcheidwaid drefnu bod eu plant yn derbyn addysg amser llawn ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 5 oed. Fodd bynnag, cynigir cludiant o ddyddiad eu pen-blwydd yn 5 oed. Nid oes hawl i gludiant i ddysgwyr o dan 5 oed.
- 1.3 Mynychu'r ysgol ddalgylch ddynodedig am eu cyfeiriad, fel y'i diffinnir yn llyfryn Derbyn i'r Ysgol Sir Gaerfyrddin – Gwybodaeth i Rieni Dalgylchoedd [Gwybodaeth i rieni - Cyngor Sir Gaerfyrddin](#) a byw dros y "pellter statudol" o'r ysgol (Cyfeiriwch at **bwynt 4.3** am ganllawiau manwl).

Bydd disgyblion hefyd yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r ysgol os ydynt yn bodloni **UN** o'r meini prawf canlynol:

² At ddibenion y polisi hwn, mae i gyfrifoldeb rhiant yr ystyr a nodir yn Adran 3 o Ddeddf Plant 1989 ac mae'n cyfeirio at yr holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant mewn perthynas â phlentyn ac eiddo y plentyn. Pan fo'r polisi hwn yn cyfeirio at riant, mae'n cynnwys unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhieni dros y dysgwr yn unol â Deddf Plant 1989.

- Yn byw o fewn y "pellter statudol" o'r ysgol ddalgylch ddynodedig ond nid oes llwybr cerdded i'r ysgol ar gael. Cyfeiriwch at **bwynt 4.3** i gael canllawiau manwl.
- Yn byw o fewn y "pellter statudol" o'r ysgol ddalgylch ddynodedig ond bod cyflwr meddygol y dysgwr naill ai yn ei rwystro rhag gwneud defnydd o'r cludiant arferol neu fod ei gyflwr yn ei rwystro rhag cerdded y "pellter cerdded" diffiniedig. Cyfeiriwch at **bwynt 4.9 a 4.10** i gael canllawiau manwl.
- Yn byw y tu allan i'r dalgylch ond yn meddu ar anghenion dysgu ychwanegol. Cyfeiriwch at **bwynt 4.7** i gael canllawiau manwl.
- Yn meddu ar Gynllun Datblygu Unigol gan yr Awdurdod Lleol (nid yr Ysgol) / Datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol gan yr Awdurdod Lleol. Cyfeiriwch at **bwynt 4.7** i gael canllawiau manwl.
- Yn mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion. Cyfeiriwch at **bwynt 4.8** i gael canllawiau manwl.
- Yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal a'r Awdurdod Lleol sydd â chyfrifoldeb rhiant corfforaethol. Cyfeiriwch at **bwynt 4.4** i gael canllawiau manwl.
- Yn byw y tu allan i'r dalgylch ond wedi newid cyfeiriad o'r tu mewn i'r dalgylch yn ystod blynyddoedd TGAU i'r tu allan i'r dalgylch. Cyfeiriwch at **bwynt 4.2** i gael canllawiau manwl.
- Yn byw y tu allan i'r dalgylch ond yn byw mewn mwy nag un cyfeiriad, gydag un o'r cyfeiriadau o fewn y dalgylch. Cyfeiriwch at **bwynt 4.15** i gael canllawiau manwl.
- Wedi cael ei wahardd yn barhaol o'i ysgol. Cyfeiriwch at **bwynt 4.12** i gael canllawiau manwl.
- Lle bo dysgwr yn methu sicrhau lle yn ysgol ei ddalgylch oherwydd bod yr ysgol yn llawn, a lle bo lle i'r dysgwr wedi cael ei wrthod yn ffurfiol drwy'r broses derbyn i ysgolion. Cyfeiriwch at **bwynt 4.14** i gael canllawiau manwl.

2. DARPARIAETH DDEWISOL

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu sawl math o gludiant dewisol o'r cartref i'r ysgol, gan gynnwys cymorth i ddysgwyr ôl-16, cludiant i addysg sy'n seiliedig ar ffydd, a mynediad at seddi gwag ar wasanaethau trafndiaeth dan contract, fel y disgrifir yn y polisi hwn ac yn **Atodiad 3**. Nid yw'r trefniadau hyn yn hawliau statudol ac maent y tu allan i ddyletswyddau cyfreithiol yr Awdurdod Lleol. Felly, gall yr Awdurdod newid neu gyfyngu ar unrhyw elfen o drafndiaeth ddewisol yn dilyn ymgynghori priodol lle bo angen.

2A. DARPARIAETH AR GYFER ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod ei ddyletswyddau statudol a'i ymrwymïadau strategol i hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, fel y nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) a Deddf y Gymraeg ac Addysg 2025.

I gefnogi'r ymrwymïadau hyn, darperir cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol pan fo'r dysgwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd statudol perthnasol a nodir yn Adran 1 o'r polisi hwn.

2B. DARPARIAETH AR GYFER YSGOLION FFYDD

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cymorth cludiant dewisol i ddysgwyr ar sail crefydd, cyn belled â bod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf perthnasol o ran oedran a phellter statudol.

Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir (o fewn y sir)

DIM OND i'r Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir canlynol yn Sir Gaerfyrddin y mae cymorth cludiant o dan yr adran hon yn berthnasol:

- Ysgol Model yr Eglwys yng Nghymru
- Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Penboyr
- Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Pentip
- Ysgol Gatholig y Santes Fair, Llanelli
- Ysgol Gatholig y Santes Fair, Caerfyrddin

Gellir darparu cymorth cludiant i ddysgwyr sy'n mynychu unrhyw un o'r ysgolion uchod os yw'r dysgwr:

- Yn bodloni'r meini prawf priodol o ran oedran ac isafswm pellter; a
- Nad yw'n byw mwy nag 8 milltir o'r ysgol - Wedi'i fesur fel y llwybr gyrru byrraf sydd ar gael o gyfeiriad cartref y dysgwr hyd at y fynedfa agosaf sydd ar gael i'r ysgol.

Ysgol Gyfun Gatholig Sant Ioan Llwyd, Llanelli

Gellir darparu cymorth cludiant lle bo'r dysgwr:

- Yn bodloni'r meini prawf safonol o ran oedran ac isafswm pellter; a
- Yn byw o fewn dalgylch dynodedig yr ysgol.

Gellir darparu cludiant hefyd i ddysgwyr sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol, cyn belled â bod:

- Y dysgwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd safonol; a
- Y dysgwr yn gallu gwneud ei ffordd ei hun i'r man casglu agosaf o fewn y dalgylch dynodedig.

Ysgolion Gwirfoddol a Reolir (o fewn y sir)

DIM OND i'r Ysgolion Gwirfoddol a Reolir canlynol yn Sir Gaerfyrddin y mae cymorth cludiant o dan yr adran hon yn berthnasol:

- Ysgol Abergwili
- Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Talacharn
- Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanddarog
- Ysgol Llanllwni

Gellir darparu cymorth cludiant lle bo'r dysgwr:

- Yn bodloni'r meini prawf safonol o ran oedran ac isafswm pellter; a
- Yn byw o fewn dalgylch dynodedig yr ysgol.

Nid yw'r darpariaethau hyn yn ofynion statudol ac maent yn gonsesiynau dewisol a gynigir gan yr Awdurdod Lleol. O'r herwydd, mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl unrhyw elfen neu bob elfen o'r ddarpariaeth gonsesiynol hon ar unrhyw adeg, yn dilyn cyfnod priodol o ymgynghori.

Lle nad yw cludiant gan yr Awdurdod Lleol yn cael ei ddarparu, gall teuluoedd ystyried:

- Teithio llesol – Cerdded, beicio, neu fynd ar sgwter os yw'r llwybrau'n ddiogel.
- Trafnidiaeth gyhoeddus – Defnyddio gwasanaethau bws a threnau lleol
- Trefniadau preifat – Teithio mewn car, rhannu car gyda theuluoedd eraill, neu ddefnyddio trafndiaeth breifat y gellir ei llogi.

2C. DARPARIAETH AR GYFER YSGOLION MEITHRIN

Nid oes dyletswydd statudol ar yr Awdurdod Lleol i ddarparu cludiant i ddysgwyr sy'n iau na'r Oedran Ysgol Statudol, boed yn rhan-amser neu'n amser llawn, ac felly nid oes gan y grŵp oedran hwn hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol.

Rhieni a gwarcheidwaid sy'n gyfrifol am drefnu ac ariannu teithio. Lle nad yw cludiant gan yr Awdurdod Lleol yn cael ei ddarparu, gall teuluoedd ystyried:

- Teithio llesol – Cerdded, beicio, neu fynd ar sgwter os yw'r llwybrau'n ddiogel.
- Trafnidiaeth gyhoeddus – Defnyddio gwasanaethau bws a threnau lleol
- Trefniadau preifat – Teithio mewn car, rhannu car gyda theuluoedd eraill, neu ddefnyddio trafndiaeth breifat y gellir ei llogi.

2D. DARPARIAETH AR GYFER DYSGWYR ÔL-16

Gall yr Awdurdod Lleol ddarparu cymorth cludiant dewisol i ddysgwyr 16–18 oed (a rhai 19 oed a ddechreuodd eu cwrs cyn troi'n 19 oed ac sydd dal yn mynychu'r un cwrs). Gellir ystyried cymorth yn yr amgylchiadau canlynol:

Darpariaeth Chweched Dosbarth - Lle bo dysgwr yn mynychu chweched dosbarth ei ysgol ddalgylch ddynodedig, cyn belled â'i fod:

- Yn bodloni'r meini prawf isafswm pellter; a
- Yn iau na 19 oed, neu'n 19 oed ond yn parhau ar gwrs a ddechreuodd cyn ei benblwydd yn 19 oed.

Colegau Addysg Bellach - Lle bo dysgwr yn mynychu ei gampws coleg addysg bellach agosaf yn y sir, cyn belled â'i fod:

- Yn bodloni'r meini prawf isafswm pellter;
- Yn iau na 19 oed, neu'n 19 oed ond yn parhau ar gwrs a ddechreuodd cyn troi'n 19 oed; a
- Wedi'i gofrestru ar gwrs amser llawn.

Nid yw'r trefniadau cludiant ôl-16 hyn yn ofynnol yn statudol, a gall yr Awdurdod Lleol dynnu'n ôl neu newid unrhyw elfen gonsesiynol o'r polisi hwn ar unrhyw adeg, yn amodol ar ymgynghoriad priodol. Mae cymorth cludiant i ddysgwyr ôl-16 yn cael ei drefnu ar y sail bod

dysgwyr yn gyfrifol am deithio'n annibynnol i'r pwynt addas agosaf ar y rhwydwaith cludiant craidd. Darperir rhagor o wybodaeth yn **Atodiad 1**.

Gall dysgwyr mewn addysg ôl-16 fod yn gymwys i gael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i helpu â chostau trafndiaeth. Mae'r cynlluniau sydd ar gael yn cynnwys:

- **Lwfans Cynhaliaeth Addysg** - Cymorth ariannol i ddysgwyr cymwys o gartrefi incwm isel barhau ag addysg amser llawn neu hyfforddiant y tu hwnt i'r oedran addysg gorfodol.
- **Grant Dysgu Cynulliad** - Cymorth i ddysgwyr 19 oed neu hŷn sydd wedi'u cofrestru mewn Addysg Bellach.
- **Cronfa Ariannol wrth Gefn** - Darparu cyllid i sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru er mwyn cefnogi dysgwyr sy'n wynebu caledi ariannol.
- **Cynllun Teithio i Bobl Ifanc** - Teithio am bris gostyngol i bobl ifanc sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, ar yr amod eu bod yn gymwys a bod y gweithredwr yn rhan o'r cynllun.

3. SUT MAE GWNEUD CAIS AM GLUDANT

Rhaid i bob dysgwr sy'n gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol gyflwyno cais ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yn [Ceisiadau Cludiant Ysgol](#)

Bydd pob cais yn cael ei asesu'n unigol gan y Tîm Teithio gan Ddysgwyr i benderfynu ar gymhwysedd yn unol â'r polisi hwn.

Rhaid cyflwyno ceisiadau o leiaf 15 diwrnod cyn y dyddiad mae angen cludiant. Os caiff y cais ei gymeradwyo, bydd Cerdyn Teithio yn cael ei gyflwyno gan yr Awdurdod Lleol. Bydd manylion y llwybrau sydd i'w defnyddio yn cael eu darparu gyda'r Cerdyn Teithio. Bydd y Cerdyn Teithio fel arfer yn cael ei gyflwyno cyn pen 15 diwrnod ar ôl gwneud cais, er y bydd yr amserlen hon yn cael ei hystyngi yn achos ceisiadau a wnaed rhwng Mehefin a Medi, ac ni fyddant yn gymwys i ddysgwyr sy'n trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (gweler isod).

Cynghorir dysgwyr sy'n trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd i gyflwyno'r cais priodol am gludiant erbyn 1 Ionawr yn ystod y flwyddyn drosglwyddo. Os daw ceisiadau i law erbyn y dyddiad hwn, ceir digon o amser i gadarnhau presenoldeb yn yr ysgol ddalgylch ddynodedig ac i'r Tîm Teithio gan Ddysgwyr asesu'r hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, yn unol â'r polisi hwn.

Mae cyflwyno cais erbyn y dyddiad cau a argymhellir yn cynyddu'r tebygolrwydd y neilltuir llwybr trafnidiaeth i ddysgwyr, ynghyd â man casglu a cherbyd sy'n addas i'w hanghenion, gan fod llwybrau a chapasiti'n cael eu cynllunio ymhell cyn y flwyddyn academiaidd newydd. Mae cyflwyno cais yn gynnar hefyd yn caniatáu digon o amser i deuluoedd y mae eu ceisiadau'n cael eu gwrthod ofyn am adolygiad drwy'r broses apelio briodol cyn dechrau'r flwyddyn ysgol academiaidd.

Bydd y Tîm Teithio gan Ddysgwyr fel arfer yn cadarnhau a yw rhywun yn gymwys i gael cludiant neu fel arall erbyn Mehefin, a chaiff Cardiau Teithio eu hanfon at ddysgwyr cymwys ym mis Awst. Bydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl 1 Ionawr yn dal i gael eu hystyried; fodd bynnag, efallai y bydd y rhain yn cael eu prosesu'n ddiweddarach ac efallai na fydd dysgwyr yn cael eu dewis pwynt casglu neu gerbyd, yn dibynnu ar argaeledd

Rhaid gwneud ceisiadau am gludiant i'r coleg yn uniongyrchol i'r coleg perthnasol.

4. DATGANIADAU POLISI

- 4.1 **Dewis Rhieni neu Warcheidwaid a Dysgwyr** - Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gall rhieni/gwarcheidwaid a dysgwyr fynegi eu bod yn ffafrio ysgol benodol. Fodd bynnag, nid yw dewis rhieni yn golygu bod ganddynt hawl awtomatig i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. Dim ond os yw'r dysgwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn Adran 1 o'r polisi hwn y darperir cymorth cludiant. Pan fydd rhieni neu warcheidwaid yn dewis ysgol heblaw'r ysgol ddalgylch ddynodedig, cyfrifoldeb y rhiant neu'r gwarcheidwad yw'r trefniadau cludiant a'r costau.
- 4.2 **Newid Cyfeiriad** - Rhaid i rieni a gwarcheidwaid roi gwybod i'r Awdurdod Lleol a'r ysgol yn syth am unrhyw newid yn eu cyfeiriad cartref. Gall newid cyfeiriad effeithio ar gymhwysedd dysgwr ar gyfer cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. Os nad yw dysgwr bellach yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd o ganlyniad i symud tŷ, bydd cymorth cludiant yn cael ei dynnu'n ôl.

Pan fydd dysgwr yn symud cartref yn ystod ei astudiaethau TGAU (ar ôl hanner tymor Hydref Blwyddyn 10), bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cymorth cludiant tan ddiwedd Blwyddyn 11, ar yr amod bod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf oedran a phellter yn y cyfeiriad newydd ac yn arfer mynychu'r ysgol ddynodwyd gan yr Awdurdod Lleol. Bydd cludiant yn yr amgylchiadau hyn yn cael ei gynnig ar y cerbyd agosaf sydd ar gael ac o'r man casglu agosaf sydd ar gael.

4.3 **Pellter Statudol** - Fe'i diffinnir fel 2 filltir (3.218 cilometr) neu fwy ar gyfer ysgolion cynradd a 3 milltir (4.828 cilometr) neu fwy ar gyfer ysgolion uwchradd, a chaiff ei fesur yn ôl y llwybr agosaf sydd ar gael o'r pwynt agosaf lle bydd cyfeiriad yr ymgeisydd yn cysylltu â'r briffordd gyhoeddus i'r fynedfa agosaf i'r ysgol. Er y cyfeirir weithiau at y pellter fel "pellter cerdded", nid yw hynny'n awgrymu bod disgwyl i'r dysgwr gerdded o reidrwydd, ond o fewn y pellter hwn disgwylir i riant/gwarcheidwad wneud ei drefniadau ei hun ar gyfer taith y dysgwr i'r ysgol ac yn ôl adref, ar ei gost ei hun.

Lle bo dysgwr o oedran ysgol statudol yn byw o fewn y pellter statudol ond nid oes llwybr cerdded ar gael, asesir y llwybr cerdded yn unol â chanllawiau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) ynghylch asesu risg llwybrau cerdded i ysgolion. Cyfeiriwch at **Atodiad 4** i gael canllawiau manwl.

4.4 **Plant sy'n Derbyn Gofal** - Pan fo dysgwr yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal ac mae'r Awdurdod Lleol, yn ei rôl fel rhiant corfforaethol, yn penderfynu bod presenoldeb mewn ysgol benodol er budd pennaf y dysgwr, gellir darparu cymorth cludiant. Gall hyn gynnwys lleoliadau mewn ysgolion heblaw'r ysgol ddalgylch ar gyfer cyfeiriad presennol y dysgwr, lle mae parhad addysg, cynnal cysylltiadau rhwng brodyr a chwiorydd, neu gadw perthnasoedd rhwng cyfoedion yn flaenoriaeth.

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf pellter statudol, ac os ydynt yn gymwys, darperir cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol fel y lleoliad mwyaf addas. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

4.5 **Dau gyfeiriad** - Pan fo rhieni neu warcheidwaid yn rhannu cyfrifoldeb dros ddysgwr a bod y dysgwr yn byw mewn dau gyfeiriad rhieni, gall yr Awdurdod Lleol ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol o'r ddau gyfeiriad, ar yr amod bod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd safonol a'r amodau canlynol:

- Bod y ddau gyfeiriad wedi'u cadarnhau fel preswylfeydd parhaol;
- Bod y manylion preswyllo yn gywir ac yn gyfredol ar systemau addysg yr Awdurdod Lleol; a
- Bod y dysgwr yn mynychu:
 - yr ysgol ddalgylch ddynodedig ar gyfer ei brif cyfeiriad cartref, neu
 - ysgol a glustnodwyd gan yr Awdurdod Lleol fel y lleoliad mwyaf addas.

Pan fo o leiaf un breswylfa yn Sir Gaerfyrddin, gall y dysgwr fod yn gymwys i gael Cerdyn Teithio o bob cyfeiriad cymwys. Rhaid i rieni neu warcheidwaid gysylltu â'r Tîm Teithio gan Ddysgwyr i gadarnhau cymhwysedd a chyflwyno'r cais gofynnol.

Pan fo gan ddysgwr ddau gartref mewn gwahanol Awdurdodau Lleol, bydd pob Awdurdod Lleol yn gyfrifol am ddarparu cludiant yn ystod y cyfnodau pan fo'r dysgwr yn byw yn ei ardal yn unig. Felly, efallai y bydd angen cyflwyno ceisiadau ar wahân i bob Awdurdod Lleol.

Darperir cludiant o unrhyw gyfeiriad sydd y tu allan i ddalgylch dynodedig yr ysgol o'r llwybr trafndiaeth agosaf sydd ar gael i'r ysgol honno, a all fod yn fwy nag 1.5 milltir o'r cyfeiriad cartref. Bydd rhieni neu warcheidwaid yn gyfrifol am sicrhau bod y dysgwr yn teithio'n ddiogel i'r man casglu dynodedig. Gall mannau casglu newid yn ystod amser y dysgwr yn yr ysgol yn unol â chynllunio llwybrau a gofynion gweithredol.

- 4.6 **Cymhwysedd Brodyr a Chwirydd ar gyfer Cludiant** - Mae cymhwysedd pob dysgwr ar gyfer cludiant ysgol am ddim yn cael ei asesu'n unigol yn erbyn y meini prawf safonol pan gaiff y cais ei wneud. O ganlyniad, gall fod achosion lle mae un brawd neu chwaer yn gymwys ar gyfer cludiant ond nid y llall, er enghraifft lle penderfynwyd bod y plentyn yn gymwys ar ôl apêl lwyddiannus neu lle mae trefniadau dalgylch wedi newid.
- 4.7 **Anghenion Dysgu Ychwanegol** - Pan fo gan ddysgwr Gynllun Datblygu Unigol Awdurdod Lleol neu Ddatganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Lleol, neu os yw'n cael asesiad statudol oherwydd anawsterau dysgu a nodwyd, mae trafndiaeth a bennir mewn IDP yn cael blaenoriaeth dros y polisi hwn. Mewn achosion o'r fath, bydd dysgwyr yn cael eu hasesu i nodi'r math a'r lefel briodol o drafndiaeth arbenigol sydd ei angen. Bydd y trefniadau cludiant hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol.
- 4.8 **Uned Cyfeirio Disgyblion** - Gall dysgwyr sy'n cael eu lleoli gan yr Awdurdod Lleol mewn Uned Cyfeirio Disgyblion gael cludiant os yw'r Awdurdod Lleol wedi penderfynu ei bod yn angenrheidiol iddynt gael mynediad i'w lleoliad. Bydd cymhwysedd yn dilyn yr egwyddorion yn Adran 1 a gall adlewyrchu pellter, anghenion diogelu, neu Anghenion Dysgu Ychwanegol.

4.9 **Cyflyrau Meddygol** - Gall dysgwyr fod yn gymwys i gael cymorth cludiant ar sail feddygol lle darperir tystiolaeth ategol briodol. Mae'r dystiolaeth dderbyniol yn cynnwys:

- Tystysgrif feddygol neu ddatganiad wedi'i lofnodi gan ymarferydd meddygol cymwys sy'n cadarnhau nad yw'r dysgwr yn gallu cerdded y pellter statudol ac sy'n esbonio sut mae'r cyflwr yn effeithio ar symudedd y dysgwr; **NEU**
- Copi o'r Datganiad o Hawl i Lwfans Byw i'r Anabl, sy'n gorfod bod yn benodol ar gyfer y dysgwr (nid aelod o'r teulu) a chadarnhau anghenion sy'n gysylltiedig â symudedd; **NEU**
- Copi o Fathodyn Glas y dysgwr, sy'n gorfod bod yn benodol ar gyfer y dysgwr (nid aelod o'r teulu) a chadarnhau anghenion sy'n gysylltiedig â symudedd.

Bydd cludiant a ddarperir ar sail feddygol yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn dod i ben pan fydd y dysgwr yn gallu teithio'n annibynnol neu pan nad oes angen meddygol mwyach.

4.10 **Cyflyrau Meddygol Dros Dro** - Gall dysgwyr sydd â chyflyrau meddygol dros dro sy'n eu hatal rhag cerdded y pellter statudol fod yn gymwys i gael cymorth cludiant tymor byr, ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf oedran ac isafswm pellter perthnasol y polisi hwn.

Rhaid i geisiadau gael eu hategu gan dystiolaeth feddygol sy'n cadarnhau:

- Natur y cyflwr;
- Sut mae'r cyflwr yn effeithio ar symudedd;
- Hyd disgwyliedig y cyflwr; a
- Effaith debygol ar bresenoldeb ysgol heb gymorth cludiant ychwanegol.

Bydd cludiant a gynigir o achos rhesymau meddygol dros dro yn cael ei ganiatáu am gyfnod penodol a'i adolygu yn ôl yr angen. Daw'r cymorth i ben pan fydd symudedd y dysgwr wedi gwella'n ddigonol neu pan na fydd y cyflwr dros dro yn cyfiawnhau cludiant ychwanegol mwyach.

4.11 **Symudiadau a Reolir** - Nid yw Cludiant yn cael ei ddarparu'n awtomatig ar gyfer symudiadau a reolir; fodd bynnag, gall yr Awdurdod Lleol gynnig cymorth lle cytunir ar y symudiad yn ffurfiol ac yn ofynnol i gefnogi ymddygiad, cynhwysiant, diogelu neu

sefydlogrwydd addysgol. Os daw'r symudiad wedi ei reoli yn drosglwyddiad parhaol, dim ond os yw'r dysgwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd safonol sy'n berthnasol i bob dysgwr y darperir cludiant parhaus. Rhaid trafod unrhyw newidiadau arfaethedig i leoliad dysgwr gyda'r Adran Drafnidiaeth ymlaen llaw i sicrhau bod trefniadau cludiant addas ar gael.

4.12 Wedi'i Wahardd yn Barhaol - Pan fo dysgwr wedi'i wahardd yn barhaol a'r

Awdurdod Lleol wedyn yn dyrannu lleoliad addysgol arall, gan gytuno ar drefniadau cludiant ymlaen llaw, gellir darparu cludiant yn amodol ar y meini prawf oedran a phellter a nodir yn Adran 1. Lle caiff ei gymeradwyo, bydd cludiant yn cael ei gynnig fel arfer ar y cerbyd agosaf sydd ar gael ac o'r man casglu agosaf sydd ar gael. Dim ond tra bydd y lleoliad arall yn angenrheidiol y bydd y cymorth yn parhau, a bydd yn dod i ben os daw'r dysgwr yn gymwys i ddychwelyd i'w ysgol ddalgylch ddynodedig neu os na fydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cymorth mwyach.

Gall yr Awdurdod Lleol ddarparu cludiant i leoliad arall lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, hyd yn oed os nad honno yw'r ysgol ddalgylch agosaf neu ddynodedig. Rhaid trafod unrhyw newidiadau arfaethedig i leoliad dysgwr gyda'r Adran Drafnidiaeth ymlaen llaw er mwyn sicrhau y gellir gwneud trefniadau cludiant priodol.

4.13 Ad-drefnu Ysgolion - Pan fydd ysgol yn cau neu'n destun ad-drefnu statudol yn dilyn proses ymgynghori ffurfiol, bydd yr Awdurdod Lleol yn nodi ysgolion dalgylch priodol eraill. Bydd cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol wedyn yn cael ei ddarparu i'r ysgol addas agosaf a nodwyd gan yr Adran Addysg, cyn belled â bod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn Adran 1.

4.14 Gor-alw mewn Ysgolion - Pan nad yw dysgwr yn gallu cael lle yn ei ysgol ddalgylch ddynodedig oherwydd bod yr ysgol yn llawn a bod lle i'r dysgwr wedi cael ei wrthod yn ffurfiol drwy'r broses derbyn i ysgolion, bydd yr Awdurdod Lleol yn nodi'r ysgol addas agosaf nesaf sydd ar gael. Gall dysgwyr y dyrennir lle iddynt yn yr ysgol arall hon gan yr Awdurdod Lleol fod yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf pellter statudol perthnasol.

Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais pan fo gor-alw yn eu hysgol ddalgylch y tu allan i reolaeth rhieni neu warcheidwaid, cyhyd â bod cais derbyn i ysgol wedi'i gyflwyno erbyn y dyddiad cau penodol.

Pan fydd rhieni neu warcheidwaid yn dewis ysgol heblaw'r ysgol a ddyrannwyd oherwydd gor-alw, bydd hyn yn cael ei drin fel dewis rhieni. Mewn achosion o'r fath,

ni ddarperir cymorth cludiant oni bai bod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd safonol a nodir yn Adran 1 yn annibynnol.

- 4.15 **Ysgolion sydd â sawl Safle** - Pan fo ysgol yn gweithredu ar fwy nag un safle, darperir cludiant am ddim i'r prif safle gweinyddol yn unig oni bai bod yr Awdurdod Lleol yn nodi safle arall fel y lleoliad dynodedig ar gyfer amserlen y dysgwr. Cyfrifoldeb yr ysgol yw'r symud mewnol rhwng safleoedd yn ystod y diwrnod ysgol.
- 4.16 **Tu Allan i Orlau Ysgol** - Dim ond ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol y darperir cludiant ysgol am ddim, yn unol â'r oriau ysgol swyddogol a gyhoeddwyd. Nid yw cludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol, darpariaeth estynedig, clybiau brecwast, sesiynau adolygu, lleoliadau profiad gwaith, na digwyddiadau ar ôl ysgol. Rhieni neu warcheidwaid sy'n gyfrifol am drefnu a chyllido'r teithio ar gyfer gweithgareddau o'r fath, oni bai bod yr ysgol yn darparu dewisiadau eraill.
- 4.17 **Cludiant ar gyfer Ymweliadau Addysgol neu Deithiau** a Drefnir gan yr Ysgol – Cyfrifoldeb yr ysgol yw trefnu ac ariannu teithiau ysgol. Nid yw'r Awdurdod Lleol yn darparu nac yn ariannu cludiant ar gyfer teithiau ysgol.
- 4.18 **Diwrnodau Sefydlu** - Nid yw cludiant ar gyfer diwrnodau sefydlu mewn ysgolion yn cael ei ddarparu'n awtomatig. Gellir trefnu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u hystyried yn gymwys i gael cludiant ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, yn unol â'r meini prawf a nodir yn Adran 1. Mae'n rhaid i ddysgwyr sy'n trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd gyflwyno'r cais gofynnol am gludiant erbyn 1 Ionawr yn y flwyddyn drosglwyddo er mwyn cael eu hystyried ar gyfer diwrnodau sefydlu. Os cyflwynir ceisiadau yn hwyr, mae'n bosibl na fydd cludiant ar gael.
- 4.19 **Cynorthwyyr Teithwyr** - Nid yw darparu cynorthwyydd teithwyr yn awtomatig a chaiff hynny ei ystyried yn yr amgylchiadau canlynol yn unig:
- Bod hynny'n ofynnol yn ôl anghenion a aseswyd y dysgwr, fel y'u nodwyd trwy brosesau ADY neu asesiad risg; neu
 - Fod yr Awdurdod Lleol yn penderfynu bod darpariaeth cynorthwyydd teithwyr yn hanfodol ar gyfer diogelwch.

Mae Cynorthwyyr Teithwyr yn cefnogi gweithrediad diogel y gwasanaeth ond nid ydynt yn gyfrifol am reoli ymddygiad y tu hwnt i oruchwyliaeth resymol.

Seddi Gwag - Cyfeiriwch at **Atodiad 3** i gael canllawiau manwl.

4.21 Cyllidebau Teithio Personol - Gall yr Awdurdod Lleol, mewn amgylchiadau prin, gynnig Cyllideb Teithio Personol yn hytrach na darparu cludiant yn uniongyrchol. Gellir darparu Cyllideb Teithio Personol:

- Pan fo hyn yn cynrychioli gwell gwerth am arian na chomisiynu cludiant;
- Pan fo anghenion y dysgwr yn golygu bod cludiant uniongyrchol yn anaddas; neu
- Pan fo'n well gan y rhiant neu'r gwarcheidwad Gyllideb Teithio Personol a bod yr Awdurdod Lleol yn cytuno bod hynny'n briodol ac yn ddiogel.

Gall Cyllidebau Teithio Personol fod ar ffurf lwfans milltiroedd sefydlog neu grant ariannol er mwyn cynorthwyo â chludiant y dysgwr rhwng y cartref a'r ysgol, neu i fan casglu priodol os yw'r pellter i gwrdd â cherbyd addas yn fwy nag 1.5 milltir.

Er mwyn bod yn gymwys i gael Cyllideb Teithio Personol, rhaid i ddysgwyr fodloni'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol fel y nodir yn y polisi hwn. Ni ddarperir Cyllidebau Teithio Personol pan fydd dysgwr yn mynychu ysgol nad yw'n ysgol ddalgylch a ddewiswyd ar sail dewis rhieni yn unig.

4.22 Peidio â Defnyddio'r Cludiant - Pan fydd dysgwr dro ar ôl tro yn methu â defnyddio'r cludiant a ddyrannwyd iddo heb hysbysu'r Tîm Teithio gan Ddysgwyr, gall yr Awdurdod Lleol dynnu'r sedd yn ôl dros dro a'i hailddyrannu i ddysgwr arall. Rhaid i rieni a gwarcheidwaid roi gwybod i'r Awdurdod Lleol ar unwaith os nad oes angen cludiant mwyach. Rhaid dychwelyd Cardiau Teithio nad oes eu hangen mwyach i'r Tîm Teithio gan Ddysgwyr fel y gellir ailddyrannu'r sedd i ddysgwr arall.

4.23 Hawl i Dynnu Cludiant yn ôl

Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl neu ddiwygio trefniadau trafndiaeth os:

- Os nad yw dysgwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd mwyach;
- Mae trafndiaeth yn cael ei gamddefnyddio neu mae ymddygiad dysgwr yn peri risg diogelwch iddyn nhw eu hunain, teithwyr eraill, neu staff trafndiaeth;

- Mae sefyllfa seddi gwag yn newid ac ni ellir cadw sedd yn ôl disgrisiwn mwyach;
- Rhieni neu warcheidwaid yn methu â chydymffurfio â gofynion y polisi hwn, gan gynnwys darparu gwybodaeth gywir a chyfredol; neu

Pan ddarperir cludiant fel trefniant yn ôl disgrisiwn, gall yr Awdurdod Lleol dynnu'r lle yn ôl yn yr amgylchiadau a amlinellir uchod.

Pan fo gan ddysgwr hawl statudol i gludiant o'r cartref i'r ysgol, gall peidio â defnyddio trafndiaeth arwain at dynnu sedd yn ôl ar lwybr neu drefniant cludiant penodol. Fodd bynnag, bydd hawl statudol y dysgwr yn parhau a gellir ailystyried trafndiaeth yn dilyn cais pellach.

Bydd o leiaf saith diwrnod o rybudd ysgrifenedig fel arfer yn cael ei ddarparu cyn i gludiant gael ei dynnu'n ôl neu ei ddiwygio, ac eithrio lle mae angen gweithredu ar unwaith i fynd i'r afael â phryderon diogelwch.

Pan fydd trafndiaeth yn cael ei dynnu'n ôl oherwydd ymddygiad neu bryderon sy'n gysylltiedig â diogelwch, gall yr Awdurdod Lleol ystyried trefniadau trafndiaeth arall lle byddai tynnu'n ôl fel arall yn atal y dysgwr rhag cael mynediad rhesymol at addysg.

Mae rhieni a gwarcheidwaid yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y dysgwr yn mynychu'r ysgol.

4.24 Talu am Deithio ar Gludiant Ysgol - Nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnig yr opsiwn i rieni neu warcheidwaid dalu am gludiant i ddysgwyr nad oes ganddynt hawl i gludiant o dan y polisi hwn.

5. YMDDYGIAD AR GLUDIANT YSGOL

Darperir cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar y ddealltwriaeth y bydd y dysgwyr yn ymddwyn mewn modd sy'n dangos parch tuag at gyd-ddysgwyr, eiddo a diogelwch pawb. Fel rhan o'r broses ymgeisio am gludiant ysgol, bydd yn rhaid i rieni neu warcheidwaid gadarnhau bod yr ymgeisydd a'r dysgwr wedi darllen a deall y [Cod Ymddygiad - Prif Ffrwd](#) [Cod Ymddygiad - ADY](#). Mae hyn yn cynnwys cydnabod y gall ymddygiad annerbyniol arwain at atal trafndiaeth dros dro neu dynnu trefniant trafndiaeth benodol yn ôl.

Pan fo ymddygiad dysgwr yn peryglu diogelwch, lles neu gysur teithwyr eraill, staff trafndiaeth, neu'r dysgwr eu hunain, gall yr Awdurdod Lleol gymryd camau priodol. Gall hyn

gynnwys rhybuddion, atal dros dro rhag cael trafnidiaeth, neu dynnu mynediad i lwybr penodol neu ddarpariaeth trafnidiaeth yn ôl.

Pan fo trafnidiaeth yn angenrheidiol i gyflawni dyletswydd statudol yr Awdurdod Lleol i ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol, bydd unrhyw benderfyniad i dynnu trefniant trafnidiaeth yn ôl yn ystyried gallu parhaus y dysgwr i gael mynediad at addysg. Mewn amgylchiadau o'r fath, gall yr Awdurdod Lleol ystyried trefniadau trafnidiaeth arall lle bo hynny'n briodol i sicrhau mynediad rhesymol at addysg wrth gynnal diogelwch yr holl ddefnyddwyr trafnidiaeth.

Mae rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid yn gyfrifol am sicrhau bod dysgwyr yn deall ac yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Trafnidiaeth ac am gefnogi'r Awdurdod Lleol i hyrwyddo ymddygiad diogel, parchus a chyfrifol ar bob gwasanaeth cludiant ysgol.

6. DULLIAU TEITHIO CYNALIADWY

Mae'r Awdurdod Lleol yn annog dysgwyr i ddefnyddio dulliau cynaliadwy o deithio i'r ysgol, lle bynnag y bo'n ddiogel ac ymarferol i wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys [teithio llesol](#) - cerdded, beicio, a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yn hytrach na theithio mewn car preifat. Ystyr dulliau cynaliadwy o deithio yw'r rheiny all wella llesiant corfforol defnyddwyr neu gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant amgylcheddol ardal yr Awdurdod Lleol.

Gellir cael gwybodaeth am fysiau lleol a gwasanaethau trên gan Traveline Cymru: [Traveline Cymru](#) neu drwy ffonio 0800 464 0000. Mae rhagor o wybodaeth a chynghor hefyd ar gael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin yn [Gwasanaethau Bysiau Cyhoeddus](#).

Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn cefnogi opsiynau cludiant addas ar gyfer teithio i'r ysgol, ac mae wedi ymrwymo i hyrwyddo teithio diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol i ddysgwyr.

Efallai y bydd nifer penodol o seddi gwag ar gael ar rai cerbydau cludiant ysgol dan contract. Cyfeiriwch at **Atodiad 3** i gael canllawiau manwl.

7. SUT I WNEUD YMHOLIADAU/CWYNION AM DREFNIADAU TEITHIO

Mae rhagor o wybodaeth am y polisi hwn ar gael gan Dîm Teithio gan Ddysgwyr yr Awdurdod Lleol. Dylid cyfeirio ymholiadau drwy e-bost at TeithioDysgwyr@sirgar.gov.uk

a gellir dod o hyd i ragor o ganllawiau ar dudalennau Cludiant Ysgol gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin [Cais am Gludiant Ysgol](#).

Dylid cyflwyno cwynion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol trwy e-bost i TrafnidiaethGyhoeddus@sirgar.gov.uk.

Gall rhieni neu warcheidwaid sydd wedi cyflwyno cais am gludiant am ddim ac mae eu cais wedi cael ei wrthod, ofyn am adolygiad o'r penderfyniad. Darperir manylion am y broses adolygu fel rhan o'r e-bost sy'n hysbysu bod y cais wedi'i wrthod.

8. Y WEITHDREFN APELIO

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu proses apelio ddewisol ar gyfer ymgeiswyr sy'n dymuno herio penderfyniad ynghylch bod yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i ysgol. Pennir manylion y broses apelïadau yn llawn yn **Atodiad 5**.

Gwrthodir cymorth trafnidiaeth ar gyfer:

- Dysgwyr o dan 5 oed,
- Dysgwyr dros 19 oed, neu
- Ceisiadau am sedd wag

Nid oes hawl i cludiant. Fodd bynnag, gellir codi pryderon ynghylch cymhwyso'r polisi hwn drwy weithdrefn gwyno'r Cyngor.

Mae ymgeiswyr yn cadw'r hawl i gyfeirio eu hachos at yr [Ombwdsmon Llywodraeth Leol](#). Dim ond materion yn ymwneud â'r broses a ddilynwyd gan yr Awdurdod Lleol y gall yr Ombwdsmon eu hystyried, ac nid canlyniad neu grebwyll proffesiynol yr Awdurdod Lleol wrth gymhwyso'r polisi cludiant. Dim ond ar ôl i broses apelio fewnol yr Awdurdod Lleol gael ei chwblhau y dylid gwneud atgyfeiriadau at yr Ombwdsmon.

ATODIAD 1: SUT RYDYM YN DARPARU CLUDIANT

1. Dulliau o Ddarparu Cludiant

Bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr sydd â hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn teithio ar gerbydau sydd dan gcontract uniongyrchol gyda'r Awdurdod Lleol. Pan nad oes cludiant dan gcontract addas ar gael, gall yr Awdurdod Lleol ddefnyddio gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.

Mewn amgylchiadau lle nad oes opsiwn dan gcontract neu dtrafnidiaeth gyhoeddus priodol yn bodoli ar gyfer taith dysgwr yn ei chyfanrwydd neu ran o'r daith, gall yr Awdurdod Lleol gynnig Cyllideb Teithio Personol i alluogi rhiant, gwarcheidwad neu oedolyn cyfrifol i gludo'r dysgwr i'r ysgol, neu i bwynt casglu priodol os yw'r pellter yn fwy nag 1.5 milltir. Dim ond os yw'r dysgwr yn gymwys i gael cludiant am ddim, ac na all yr Awdurdod ddarparu cludiant o'r fath yn uniongyrchol, y mae'r cymorth hwn ar gael.

2. Mannau Casglu a Gollwng

Nid yw bob amser yn bosibl i lwybrau cludiant basio'n agos i gartref pob dysgwr. Mae rhieni a gwarcheidwaid yn gyfrifol am sicrhau bod dysgwyr yn teithio'n ddiogel i'r man casglu a gollwng dynodedig, sydd fel arfer heb fod yn fwy nag 1.5 milltir o'r cyfeiriad cartref.

Dim ond ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol y darperir cludiant, yn unol ag oriau gweithredu safonol yr ysgol. Nid oes rheidrwydd ar yr Awdurdod Lleol i ddarparu cludiant:

- I ddrws y cartref,
- Ar yr union amseroedd y gwnaed cais amdanynt gan rieni a gwarcheidwaid, neu
- Yn ystod y diwrnod ysgol, rhwng safleoedd, neu ar gyfer presenoldeb rhannol.

Nid yw clybiau brecwast, gweithgareddau ar ôl ysgol, a digwyddiadau allgyrsiol yn cael eu cwmpasu gan gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol.

3. Amser Teithio

Lle bo'n bosibl, cedwir amser teithio yn rhesymol. Fodd bynnag, gall hyd y daith amrywio yn dibynnu ar:

- Daearyddiaeth wledig,
- Nifer y teithwyr a

- Llwybr y contract.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynllunio llwybrau i sicrhau cludiant diogel ac effeithlon, ond ni all warantu amseroedd teithio byrrach neu rai wedi'u teilwra'n unigol.

4. YMDDYGIAD AR GLUDIANT YSGOL

Rhaid i bob dysgwr sy'n defnyddio cludiant a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol ddilyn y Cod Ymddygiad Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg.

Gall camymddwyn arwain at rybuddion, atal dros dro rhag cludo, neu dynnu'n ôl o drefniant cludiant penodol. Pan fo'n ofynnol i drafnidiaeth fodloni dyletswydd statudol yr Awdurdod Lleol, gellir ystyried trefniadau arall lle bo angen i sicrhau mynediad rhesymol i addysg.

Cyfrifoldeb rhieni neu warcheidwaid yw sicrhau bod dysgwyr yn deall ac yn cydymffurfio â'r disgwyliadau o ran ymddygiad.

5. Defnyddio Camerâu

Gellir gosod teledu cylch cyfyng neu ddyfeisiau recordio eraill ar rai cerbydau dan gontract at ddibenion:

- Diogelu,
- Monitro ymddygiad, a
- Sicrhau bod gyrwyr a theithwyr yn ddiogel.

Bydd yr hyn sy'n cael ei recordio yn cael ei reoli yn unol â deddfwriaeth diogelu data ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gweithredol neu ddiogelu dilys yn unig.

6. Trefniadau Cludiant Ôl-16

Nid yw'r ddarpariaeth cludiant ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn cael ei gwneud ar yr un sail ag ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol statudol.

Darperir cludiant ôl-16 ar y sail bod disgwyl i ddysgwyr deithio'n annibynnol i gael mynediad i'r rhwydwaith cludiant craidd. Mae'r trefniadau fel a ganlyn:

- Cyfrifoldeb y dysgwyr yw cyrraedd pwynt addas ar y rhwydwaith cludiant craidd.
- Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen i ddysgwyr deithio mwy nag 1.5 milltir i gael mynediad at gerbyd addas ar y rhwydwaith craidd.

- Ni ddarperir unrhyw drefniadau cludiant pwrpasol neu fwydo ar gyfer dysgwyr ôl-16, oni bai bod anghenion symudedd wedi'u nodi (ADY).
- Ni fydd cludiant yn cael ei ddarparu i ddysgwyr sy'n byw o fewn tair milltir i'w man dysgu, boed llwybr cerdded ar gael neu beidio.

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y caniateir i ddysgwyr sy'n symud ymlaen i addysg ôl-16 yn eu hysgol ddalgylch ddynodedig barhau i ddefnyddio cerbydau bwydo presennol, os oes digon o seddi gwag ar gael. Mae trefniadau o'r fath yn ddewisol ac yn amodol ar adolygiad blynyddol, ac nid ydynt yn gyfystyr â hawl i ddarpariaeth barhaus.

ATODIAD 2: AMODAU DEFNYDDIO CARDIAU TEITHIO

Rhaid i ddysgwyr gyflwyno eu Cardiau Teithio dilys i'r gyrrwr ar ddechrau pob taith. Gellir gwrthod cludiant os na ddangosir cerdyn dilys. Nid oes modd trosglwyddo Cardiau Teithio, a dim ond y dysgwr a enwir ar y cerdyn all ei ddefnyddio, a hynny ar gyfer y llwybr penodol a'r teithiau a nodwyd.

Mae camddefnyddio neu ddefnydd twyllodrus o Gerdyn Teithio yn cael ei drin yn ddifrifol a gall arwain at:

- Camau disgyblu gan yr ysgol neu'r coleg, a/neu
- Atal rhag gwasanaethau trafnidiaeth neu dynnu'n ôl o drefniant trafnidiaeth penodol gan yr Awdurdod Lleol.

Rhaid i rieni a gwarcheidwaid hysbysu'r Tîm Teithio gan Ddysgwyr ar unwaith os bydd unrhyw fanylion ar y ffurflen gais wreiddiol yn newid, fel y gellir ailasesu cymhwysedd. Pan fo angen cerdyn newydd yn dilyn newid, rhaid dychwelyd y cerdyn gwreiddiol cyn y gellir cyflwyno cerdyn newydd. Os na fydd y cerdyn gwreiddiol yn cael ei ddychwelyd, bydd oedi o ran prosesu eich cais newydd.

Os nad oes angen Cerdyn Teithio mwyach, rhaid ei ddychwelyd i'r Tîm Teithio gan Ddysgwyr cyn gynted â phosibl fel y gellir neilltuo'r sedd i ddysgwr arall.

Os bydd Cerdyn Teithio yn cael ei golli neu ei ddifrodi, rhaid i rieni neu warcheidwaid wneud cais am [Gerdyn Newydd](#).

Mae tâl o £6 yn cael ei godi am bob cerdyn sy'n cael ei ailgyflwyno. Gellir cyhoeddi trefniadau teithio dros dro lle bo'n bosibl.

Ymddygiad Dysgwyr - Rhaid i bob dysgwr sy'n defnyddio cludiant a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol gadw at y Cod Ymddygiad Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol. Gall methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad arwain at gamau disgyblu, gan gynnwys tynnu'r cludiant yn ôl dros dro neu'n barhaol [Cod Ymddygiad - Prif Ffrwd](#) [Cod Ymddygiad - ADY](#).

ATODIAD 3: POLISI SEDDI GWAG

Mae gan yr Awdurdod Lleol Gynllun Seddi Gwag dewisol ar nifer cyfyngedig o gerbydau cludiant ysgol dan gcontract. Gellir cynnig seddi gwag i ddysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim, yn dibynnu ar argaeledd, gofynion diogelwch, a gallu gweithredol.

Nid oes hawl statudol i seddi gwag a gellir tynnu'r cynnig yn ôl ar unrhyw adeg. Caiff seddi eu dyrannu ar gyfer un flwyddyn academaidd yn unig ac ni ellir gwarantu darpariaeth yn y dyfodol. Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau ar-lein drwy wefan y Cyngor [Cais am Sedd Wag](#).

Nid oes angen ailgyflwyno ceisiadau mewn blynyddoedd dilynol a byddant yn cael eu hailystyried yn awtomatig, oni bai bod amgylchiadau'n newid (er enghraifft, newid cyfeiriad neu ysgol). Mae unrhyw ddyraniad yn ddilys am un flwyddyn academaidd yn unig ac ni ellir gwarantu y caiff ei adnewyddu.

1. Meini Prawf Cymhwysedd

Gellir cynnig sedd wag os yw'r dysgwr:

- Yn byw yn Sir Gaerfyrddin ac mae'r cyfeiriad cartref wedi'i gofrestru gyda'r ysgol;
- Yn mynychu ysgol ddalgylch ddynodedig yr Awdurdod Lleol;
- Yn byw o fewn pellter cerdded statudol, ond o leiaf filltir o'r ysgol;
- Heb gludiant cyhoeddus addas ac nad oes gwasanaeth ysgol y gellir talu amdano ar gael; a
- O oedran ysgol statudol.

Dim ond ar gyfer y canlynol mae seddi gwag ar gael:

- Cerbydau dan gcontract penodedig sydd â lle i naw neu ragor o deithwyr eistedd, a
- Llwybrau cludiant ysgolion prif ffrwd

Ni ellir cynnig seddi gwag ar:

- Tacsis neu gerbydau hurio preifat,
- Cerbydau a ddefnyddir ar gyfer darpariaeth ADY arbenigol yn unig,
- Llwybrau lle mae bws ysgol y telir amdano yn gweithredu, neu
- Llwybrau lle mae trafndiaeth gyhoeddus addas ar gael.

Yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru, ni all yr Awdurdod Lleol dderbyn taliad am seddi gwag ar gerbydau nad ydynt yn bodloni'r Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSVAR).

2. Amodau'r Dyranriad

- Cynigir seddi gwag o fis Medi bob blwyddyn lle bo'n bosibl, wedi i seddi gael eu dyrannu i'r holl ddysgwyr cymwys. Gellir rhoi seddi gwag ychwanegol yn ystod y flwyddyn os bydd lleoedd ar gael.
- Os oes angen lle ar gyfer dysgwr cymwys, gallai'r dyranriad newid neu gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg.
- Caiff seddi eu dyrannu ar gyfer un flwyddyn academiaidd yn unig ac ni ellir gwarantu y byddant ar gael yn y dyfodol.
- Ni fydd unrhyw filltiroedd yn cael eu hychwanegu at lwybrau, na newidiadau'n cael eu gwneud iddynt, er mwyn darparu ar gyfer teithwyr seddi gwag.
- Mae penderfyniad yr Awdurdod Lleol ynghylch y seddi sydd ar gael yn derfynol.
- Ni ellir dyrannu pob sedd sy'n ymddangos yn wag; mae'n bosibl bydd angen seddi ar gyfer:
 - teithwyr achlysurol cymwys,
 - dibenion asesu risg,
 - staff fel cynorthwyywyr teithwyr, aseswyr llwybrau, neu hyfforddiant gyrwyr.

Gall contractwyr weithiau ddefnyddio cerbydau mwy nag sy'n ofynnol am resymau gweithredol; Nid yw hyn yn gwarantu bod sedd wag ar gael.

3. Trefn Blaenoriaeth

Lle bo seddi gwag ar gael, byddant yn cael eu dyrannu yn nhrefn blaenoriaeth, a rhoddir blaenoriaeth i ddysgwyr iau.

Os bydd rhaid tynnu seddi gwag yn ôl yn ystod y flwyddyn academiaidd, bydd hynny'n digwydd yn groes i'r drefn blaenoriaeth, a seddi'r dysgwyr hyn fydd yn cael eu tynnu'n ôl gyntaf.

4. Proses Gwneud Cais

- Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau ar-lein erbyn diwedd y flwyddyn academiaidd flaenorol.
- Bydd cymhwysedd yn cael ei asesu yn seiliedig ar y seddi gwag sydd ar gael ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd newydd, ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd ar ôl hynny.
- Dim ond os yw'r rhiant neu'r gwarcheidwad wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig llawn y gall trydydd parti gyflwyno cais.
- Once submitted, applications will be reconsidered annually; fodd bynnag, nid yw'r dyraniad yn awtomatig ar gyfer y blynyddoedd dilynol ac mae'n parhau i fod yn amodol ar gapasiti sydd ar gael a'r meini prawf perthnasol. Rhaid cyflwyno cais newydd os oes unrhyw newid mewn amgylchiadau (er enghraifft, newid cyfeiriad neu newid ysgol). Bydd manylion y llwybr yn cael eu cyflwyno gyda'r Cerdyn Teithio.

5. Defnyddio Cardiau Teithio Seddi Gwag

- Rhaid i ddysgwyr gyflwyno'r Cerdyn Teithio ar ddechrau pob taith.
- Nid oes modd trosglwyddo Cardiau, a dim ond ar gyfer y dysgwr a enwir a'r llwybr sydd wedi'i ddynodi y maent yn ddilys.
- Gall camddefnyddio neu ddefnydd twyllodrus arwain at gamau disgyblu a thynnu'r consesiwn yn ôl yn syth.
- Unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau (e.e., cyfeiriad, ysgol, cymhwysedd) yn rhaid eu hadrodd i'r Tîm Teithio Dysgwyr ar unwaith.
- Pan fo angen cerdyn newydd, rhaid dychwelyd y cerdyn presennol cyn y caiff yr un newydd ei gyflwyno.
- Os nad oes angen y cerdyn mwyach, mae'n rhaid ei ddychwelyd yn ddi-oed fel bod modd ailddyrannu'r lle.

Codir y tâl safonol sy'n cael ei bennu gan yr Awdurdod Lleol am gardiau teithio newydd.

6. Tynnu Seddi Gwag yn ôl

Gall yr Awdurdod Lleol dynnu sedd wag yn ôl ar unrhyw adeg gan roi saith diwrnod o rybudd ysgrifenedig, sy'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) sefyllfaoedd lle:

- mae angen y sedd ar gyfer dysgwr sy'n gymwys i gael cludiant am ddim;
- mae newid o ran y llwybr neu'r trefniadau gweithredol;
- mae camddefnyddio neu dwyll yn digwydd; neu
- lle nad yw'r dysgwr yn bodloni amodau'r cynllun mwyach.

Pan gaiff sedd wag ei thynnu'n ôl:

- rhaid dychwelyd y Cerdyn Teithio ar unwaith; a
- bydd y cyfrifoldeb dros drefniadau teithio'r dysgwr yn dychwelyd i'r rhiant neu'r gwarcheidwad.

Os na chaiff y cerdyn ei ddychwelyd, gallai hynny effeithio ar fod yn gymwys i gael mynediad i'r cynllun yn y blynyddoedd dilynol.

Nid oes hawl i gludiant yn yr amgylchiadau hyn.

ATODIAD 4: ASESIAU LLWYBR CERDDED

Rhaid i awdurdodau lleol asesu a yw llwybr cerdded dysgwr i'r ysgol yn **llwybr sydd ar gael (diogel)** neu'n **llwybr nad yw ar gael (anniogel)** yn unol â'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru).

1. Yr hyn mae'r Asesiad yn ei Ystyried

Mae aseswyr yn cerdded y llwybr ac yn ystyried:

- Troetffyrdd a lled y ffordd
- Lefel a chyflymder y traffig
- Croesfannau
- Gwelededd
- Risgiau Amgylcheddol
- Goleuadau
- Newidiadau yn yr ardal

2. Pan fydd Angen Ailasesiadau

Mae ailasesiadau'n cael eu cynnal pan fydd amodau'n newid, megis:

- damweiniau neu ddigwyddiadau,
- datblygiadau newydd,
- newidiadau mewn traffig,
- newidiadau i seilwaith,
- neu pan fydd anghenion dysgwyr yn newid.

3. Perygl Cymdeithasol

Mae aseswyr hefyd yn ystyried risgiau cymdeithasol, megis:

- troseddau neu ymddygiad gwrthgymdeithasol,
- pryderon perygl pobl ddieithr,
- tystiolaeth o gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol.

Mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r Heddlu a phartneriaid diogelu i nodi a gwirio unrhyw beryglon cymdeithasol.

4. Canlyniad

Dim ond pan fernir ei fod yn rhesymol ddiogel i'w gerdded, gan ystyried oedran y dysgwr ac unrhyw angen i'w hebrwng, y caiff llwybr ei ddynodi'n un sydd 'ar gael'.

Mae'r holl asesiadau o lwybrau yn cael eu cynnal ar y sail y caiff dysgwyr eu hebrwng os oes angen gan oedolyn cyfrifol. Cyfrifoldeb y rhiant neu'r gwarcheidwad yw penderfynu a oes angen goruchwyllo dysgwr ar ei daith a gwneud trefniadau hebrwng addas os na all wneud hynny ei hun.

Pan na ellir lleihau'r risgiau a nodwyd yn rhesymol, bydd y llwybr yn cael ei ddynodi'n un **nad yw ar gael**, a gellir darparu cymorth cludiant yn unol â pholisi'r Cyngor.

ATODIAD 5: POLISI APELIADAU

Pwrrpas

Darparu proses deg, dryloyw a chyson ar gyfer adolygu penderfyniadau a wneir o dan y Polisi Cludiant Ysgol. Mae'r broses yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu hailystyried yn wrthrychol, yn gyson, ac o fewn terfynu amser rhesymol, yn seiliedig ar dystiolaeth ysgrifenedig yn unig.

Cwmpas

Gall rhieni neu warcheidwaid apelio yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â:

- Bod yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol
- Ceisiadau lle mae amgylchiadau eithriadol

Ni ellir apelio ar gyfer:

- Dysgwyr dan 5 oed
- Dysgwyr 19 oed neu hŷn
- Seddi gwag a wrthodwyd

Trosolwg o'r Broses Apelio

Mae'r broses apelio wedi'i chynllunio i sicrhau bod pob cais yn cael ei ystyried yn deg, yn dryloyw ac yn annibynnol. Mae'n cynnwys dau gam, gyda phob cam yn cael ei adolygu gan banel gwahanol. Pan na chaiff apêl ei chael yn cael ei chael yng Ngham 1, gall rhieni neu ofalwyr ofyn i'r penderfyniad gael ei adolygu yng Nghyfnod 2.

Cam 1 – Y Panel Adolygu Swyddogion

Gall rhieni neu ofalwyr gyflwyno cais ysgrifenedig am adolygiad o'r penderfyniad trafndiaeth o fewn 28 diwrnod calendr ar ôl derbyn hysbysiad o'r canlyniad.

Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan Banel Adolygu Swyddogion sy'n cynnwys cynrychiolwyr o:

- Cludiant Teithwyr (Teithio i Ddysgwyr),
- Gwasanaethau Cyfreithiol, a
- Addysg a Gwasanaethau Plant.

Bydd yr adolygiad yn seiliedig ar y wybodaeth ysgrifenedig a ddarperir yn unig. Ni fydd rhieni na gofalwyr yn mynychu cyfarfod y panel. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth berthnasol, cyhoeddir penderfyniad ysgrifenedig yn amlinellu'r canlyniad.

Cam 2 – Panel Apêl Aelodau

Pan fo rhiant neu ofalwr yn parhau i fod yn anfodlon â chanlyniad Cam 1, gallant ofyn i'r apêl gael ei chyfeirio at y Panel Apêl Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan Aelodau etholedig yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael. Bydd y panel yn adolygu'r holl wybodaeth ac amgylchiadau perthnasol cyn dod i benderfyniad.

Mae penderfyniad y Panel Apêl Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn derfynol ac yn dod â phroses apelio'r Cyngor i ben.

Rhesymau dros Apelio a Thystiolaeth Ategol

Dylai ymgeiswyr nodi'n glir y rhesymau dros eu hapêl a darparu tystiolaeth ategol berthnasol. Ymhlith yr enghreifftiau o resymau derbyniol y mae:

- Amgylchiadau teuluol: patrymau gwaith, cyfrifoldebau rhiant sengl
- Anghenion meddygol: Llythyrau meddyg teulu/ymgynghorydd, prawf o fudd-daliadau anabledd
- Amgylchiadau gofal/cymdeithasol: tystiolaeth ddiogelu neu weithiwr cymdeithasol
- Pryderon am fwlio/diogelwch cofnodion diogelu, adroddiadau'r Heddlu/Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu
- Tai/digartrefedd: Tystiolaeth y Gwasanaethau Tai, hysbysiadau troi allan

Adolygu'r Polisi

Mae'r Polisi Apelio yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau tegwch, eglurder a chydymffurfiaeth â chanllawiau statudol.

ATODIAD 6: TREFNIADAU PONTIO

Roedd yr adolygiad diweddar o ddalgylch ysgolion a cholegau y cytunwyd arno gan y Cabinet yn ddiweddar yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus yn cynnwys y trefniadau pontio canlynol:

- Byddai dysgwyr sydd eisoes yn derbyn cludiant ysgol cyn Medi 2027 yn parhau i dderbyn cludiant o'r un cyfeiriad i'r un sefydliad tan ddiwedd eu haddysg statudol (Blwyddyn 6 ar gyfer cynradd, Blwyddyn 11 ar gyfer uwchradd). Byddai myfyrwyr chweched dosbarth a myfyrwyr coleg sydd eisoes yn derbyn cludiant cyn Medi 2027 yn parhau i dderbyn cludiant os ydynt yn mynychu'r un sefydliad/campws o'r un cyfeiriad.
- Byddai ymgeiswyr newydd o fis Medi 2027, neu'r rhai sy'n newid cyfeiriad neu ysgol, yn ddarostyngedig i'r dalgylchoedd diwygiedig.
- Byddai dysgwyr sy'n mynd i mewn i'r chweched dosbarth neu'n dechrau coleg o fis Medi 2027 hefyd yn ddarostyngedig i'r dalgylchoedd diwygiedig.

Y bwriad yw ymestyn y trefniadau pontio ar gyfer dysgwyr yr effeithir arnynt gan newid i ddalgylch os ydynt yn byw mewn dalgylch penodol ar hyn o bryd ond ni fyddant o fis Medi 2027, a hynny fel a ganlyn (cyn belled â nad oes newid mewn cyfeiriad neu ysgol):

- Y rheiny sy'n byw ar hyn o bryd mewn dalgylch ysgol na fydd yn ddalgylch ar gyfer yr un ysgol o fis Medi 2027 ac sy'n dechrau yn yr ysgol gynradd yn amser llawn yn nhymor y Gwanwyn, yr Haf a'r Hydref 2027 (lle bydd rhieni wedi gwneud ceisiadau am le ysgol amser llawn erbyn y dyddiad cau o 31 Ionawr 2026 ac wedi dyrannu lleoedd ym mis Ebrill 2026). Nid yw'r disgyblion hyn yn gymwys i gael cludiant tan eu pen-blwydd yn 5 oed.
- Y rheiny sy'n byw ar hyn o bryd mewn dalgylch ysgol na fydd yn ddalgylch ar gyfer yr un ysgol o fis Medi 2027 ac sy'n dechrau yn yr ysgol uwchradd yn amser llawn ym mis Medi 2027 (gan y bydd rhieni wedi gwneud penderfyniadau ar leoedd ysgol).
- Y rheiny sydd eisoes yn derbyn cludiant i'r ysgol uwchradd ac sy'n dymuno mynd ymlaen i'r chweched dosbarth.